CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
A GYNHALIWYD AR 26 EBRILL 2017

Y Maer, y Cyngh Wyn Thomas, fu'n cadeirio'r cyfarfod misol o Gyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fercher y 26ain o Ebrill 2017 am 7.30 pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Dorothy Bere, Parchedig Tom Defis, Dr Dewi Evans, Philip Grice, Peter Hughes Griffiths, Alun Lenny, Kenneth Lloyd, Emlyn Schiavone, Doug Rose, Wyn Thomas a Barry Williams.

Cyhoeddodd y Maer, y Cynghorydd Wyn Thomas y newyddion am farwolaeth drist y cyn Faer John Williams. Dywedodd y Maer y fyddai yn ysgrifennu llythyr o gydymdeimlad ar ran y Cyngor i weddw Mr Williams.

572. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Dr Baba Gana, Dr Richard Edwards, Anthony Jenkins, Arwel Lloyd a Dr Ioan Matthews.

573. DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cyngh Alun Lenny bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 10(a) ar yr agenda - Materion Cynllunio, fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin.

574. CWESTIYNAU

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

575. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 29 MAWRTH 2017

Cynigiwyd gan y Cyngh Emlyn Schiavone, eiliwyd gan y Cyngh Doug Rose, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 29ain o Fawrth 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir. Roedd pawb yn gytûn.

576. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

577. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL A GYNHALIWYD AR 11 EBRILL 2017.

Gofynnodd y Cyngh Philip Grice pam nad oedd y cofnodion yn cynnwys mwy o wybodaeth manwl am adroddiad Clerc y Dref. Dywedodd y Cyngh Peter Hughes Griffiths bod adroddiad Clerc y Dref yn cael ei archifo gyda'r cofnodion ac felly nid oedd angen mwy o fanylion.

Cynigiwyd gan y Cyngh Philip Grice, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar y 11eg Ebrill 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir. Roedd pawb yn gytûn.

578. MATERION YN CODI

Cofnod 565 – Goleuadau Troedffordd

Cynigiwyd gan y Cyngh Philip Grice, eiliwyd gan y Cyngh Alun Lenny a **PHENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn derbyn y trefniant presennol rhyngddynt a Chyngor Sir Gaerfyrddin, ac i ohirio unrhyw adolygiad pellach o'r mater hwn tan fydd ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol. Roedd pawb yn gytûn.

Cofnod 566 – Gosod Torchau

Cynigiwyd gan y Cyngh Philip Grice, eiliwyd gan y Cyngh Barry Williams a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Maer i fynychu'r digwyddiadau a nodwyd, er y dylai unrhyw drefniadau yn y dyfodol cael eu hadolygu i ystyried eu heffaith ar Sul y Cofio. Roedd pawb yn gytûn.

579. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R PWYLLGOR CYLLID A GYNHALIWYD AR 13 EBRILL 2017

Cynigiwyd gan y Cyngh Philip Grice, eiliwyd gan y Cyngh Parch Tom Defis, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar yr 13eg o Ebrill 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir yn amodol ar y newid isod. Roedd pawb yn gytûn.

Cofnod 573 – Dylai'r testun ddarllen Chipperfield nid Chesterfield.

580. MATERION YN CODI

Cofnod 566: Trosglwyddo Cyfrif Busnes y Cyngor Tref

Ar ôl trafodaeth dywedodd y Cyngh Alun Lenny ei fod yn gwrthwynebu'r trosglwyddiad am mai cyfarwyddyd y Pwyllgor Cyllid oedd i'r Clerc i ymchwilio i'r mater ymhellach ac nid oedd yn teimlo bod caniatâd wedi ei roi i wneud y trosglwyddiad. Dywedodd y Cyngh Parch Tom Defis nad oes unrhyw drosglwyddiad wedi ei wneud hyd yn hyn a bod y Clerc wedi gwneud yn gywir a'r cyfarwyddyd oddi wrth y Pwyllgor Cyllid wrth olygu'r mater hwn.

Cynigiwyd gan y Cyngh Parch Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Ken Lloyd, a **PHENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn trosglwyddo cyfrifon banc. Roedd 9 o blaid, 1 ymatal ac 1 yn erbyn.

Cofnod 567: Diweddaru Swyddfa'r Clerc yn Neuadd Ddinesig San Pedr

Cynigiwyd gan y Cyngh Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Alun Lenny a **PHENDERFYNWYD** diweddaru Swyddfa'r Clerc. Roedd pawb yn gytûn.

Cofnod 568: Prynu Teledu SMART i'r Ystafell Bwyllgor yn Neuadd Ddinesig San Pedr

Cyflwynwyd gan y Cyngh Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Emlyn Schiavone a **PHENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn prynu Teledu SMART ar gyfer yr Ystafell Bwyllgor. Roedd pawb yn gytûn.

Cofnod 569: Ymddiriedolaeth Y Living Wage

Cyflwynwyd gan y Cyngh Emlyn Schiavone, eiliwyd gan y Cyngh Ken Lloyd a **PHENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn codi cyflogau perthnasol yn unol â graddfa cyflogau Ymddiriedolaeth Y Living Wage. Roedd pawb yn gytûn.

581. MATERION CYNLLUNIO: CEISIADAU CYNLLUNIO CYFREDOL

35391 – Cynllunio Llawn. Port Meirion, Heol Springfield. Balconi Cefn. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

35419 – Cynllunio Llawn. 54-55 Heol y Dŵr, Caerfyrddin. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

582. MATERION PRIFFYRDD

Cau ffordd dros dro - Heol Las, Heol Awst, Heol Morley a Heol Mansel, Caerfyrddin ar gyfer Rasus y Maer, Mai 1af 2017 – **CEFNOGWYD.**

583. MATERION TRWYDDEDU

Cais am Drwydded Safle, Days Department Store, 2-5 Guildhall Square, Caerfyrddin.Cais i gyflenwi Alcohol Dydd Llun - Dydd Sul 09:00 - 23:00

Cytunwyd y dylid gofyn am wybodaeth pellach cyn bod y Cyngor yn gallu gwneud penderfyniad.

584. PWYLLGOR CYNHADLEDD CYNGHORAU MWY UN LLAIS CYMRU YN LLANFAIR-YM-MUALLT 5ED EBRILL 2017

Yn dilyn adroddiad gan y Cyngh Ken Lloyd, cynigiwyd gan y Cyngh Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths a **PHENDERFYNWYD** dylai Clerc y Dref drefnu seminar Cynllunio Busnes ar gyfer y Cyngor newydd. Roedd pawb yn gytûn.

585. MATERION UN LLAIS CYMRU

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

586. HYFFORDDI CYNGHORWYR

Ar ôl trafodaeth, cytunwyd y dylai hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr cael ei drefnu drwy Un Llais Cymru. Mae hyfforddiant sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd gan Un Llais Cymru yn cael ei gyflwyno yn Saesneg yn bennaf, oherwydd prinder hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith. Cynigiwyd gan y Cyngh Parch Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths a **PHENDERFYNWYD** gan y Cyngor y dylai Clerc y Dref ysgrifennu at Un Llais Cymru i ofyn iddynt ailystyried ei darpariaeth Cymraeg. Roedd 10 o blaid ac 1 ymatal.

587. TREFNIADAU AR GYFER Y CYNGOR NEWYDD

NODWYD bod Clerc y Dref wedi gofyn i Gynghorwyr perthnasol i wneud trefniadau i fynychu'r swyddfa i arwyddo eu Datganiad Swyddfa yn ystod yr wythnos yn dechrau 8fed o Fai.

588. RASUS Y MAER DYDD LLUN 1AF O FAI 2017

NODWYD y mater.

589. ADRODDIAD Y MAER

Roedd rhestr o'r digwyddiadau y bu'r Maer, y Cyngh Wyn Thomas, yn bresennol ynddynt, wedi'i dosbarthu fel Atodiad 5 i'r agenda.

590. ADRODDIADAU GAN GYNGHORWYR FEL CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

Dywedodd y Cyngh Peter Hughes Griffiths y byddai'r ymweliad gefeillio nesaf ar yr 2il o Fehefin a rhoddodd amlinelliad byr o'u hamserlen.

Roedd y Cyngh Doug Rose wedi mynychu cyfarfod fel Llywodraethwr yn Ysgol Tre Ioan ac adroddodd ar y recriwtio llwyddiannus diweddar o Ddirprwy Brif Athrawes newydd.

Diolchodd y Cyngh Wyn Thomas y Cynghorwyr Dorothy Bere, Dr Dewi Evans, Anthony Jenkins, Dr Richard Edwards, Doug Rose ac Alan Speake am eu gwaith a dymunodd yn dda iddynt. Cytunwyd y byddai'n ysgrifennu i ddiolch iddynt yn swyddogol, yn rhinwedd ei swydd fel Maer.

591. EITHRIO'R CYHOEDD A'R WASG

Heb weithredu.

592. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:25yh.